

Rucaparib ar gyfer triniaeth gynnal i ganser ofarïaidd, y tiwb ffalopaidd neu beritoneol atglafychol sy'n sensitif i blatinwm

17 Medi 2024

Mae rucaparib (Rubraca) ar gael ar y GIG. Mae'n driniaeth gynnal bosibl i oedolion ar gyfer canser epithelaidd, ofarïaidd, canser y tiwb ffalopaidd neu ganser peritoneol gradd uchel sylfaenol atglafychol sydd wedi ymateb yn gyfan gwbl neu'n rhannol i gemotherapi seiliedig ar blatinwm.

A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?

Dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os byddwch yn dymuno. Gweler [ein tudalen we ar wneud penderfyniadau am eich gofal](#).

Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pa mor dda y mae'n gweithio o gymharu â thriniaethau eraill?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgil-ffeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Sut y bydd y driniaeth yn effeithio ar fy mywyd o ddydd i ddydd?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio?
- Beth fydd yn digwydd os na fyddaf am gael y driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

Gwybodaeth a chymorth

Gall [tudalen we y GIG ar ganser ofarïaidd](#) fod yn lle da i gael gwybod mwy.

Gall y sefydliadau hyn roi cyngor a chymorth i chi:

- [Ovacome](#), 0800 008 7054
- [Target Ovarian Cancer](#), 0207 923 5475
- [Ymchwil Canser y DU](#), 0808 800 4040
- [Cymorth Canser Macmillan](#), 0808 808 0000

Gallwch hefyd gael cymorth gan eich tîm [Healthwatch](#) lleol.

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

© **NICE 2026**. All rights reserved. Subject to [Notice of rights](#).

ISBN: 978-1-4731-9472-4